


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 8 2022

Presennol :- Cyngorwyr : Gwilym Jones, Sandra Bodden Jones, Aled Griffith, Alwyn Gruffydd, Michael Roberts, Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Llywelyn Rhys (Cadeirydd)
Marian Roberts (Clerc)

196.11.22 Ymddiheuriadau :- Cyng.Llinos Murphy

197.11.22 Sgwrs gyda Barry Davies Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd

Croesawyd y tri swyddog, Barry Davies (Pennaeth Adran Morwrol Cyngor Gwynedd), Bryn Pritchard Jones (Uwch Swyddog Traethau Cyngor Gwynedd) a Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Llywelyn Rhys. Eglurodd Barry Davies ei fod wedi ymweld â chyfarfod o'r Cyngor Tref yn y gorffennol ac mai'r cysylltiad sydd yn bodoli bellach yw Pwyllgor yr Harbwr ble mae cynrychiolwyr o'r Cyngor wedi bod yn mynychu.

Cytunwyd i agor y llawr i gwestiynau gan yr aelodau er mwyn cael ymateb gan y swyddogion a chadw'r sesiwn i ddwy ran – un am bryderon am y traeth a'r llall ynglyn â'r harbwr.

- **Mynegodd y Cyng Alwyn Gruffydd bryderon ynglyn â sefyllfa glanweithdra ar y traeth a'r ffaith nad oedd digon o doiledau ar gael yno. Awgrymodd y gallai'r swyddogion gefnogi cwynion y Cyngor Tref pan yn eu cyflwyno i Adran Fwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd.**

Ymateb Barry Davies :- dywedodd fod cydweithio da rhwng yr adran Forwrol a'r Adran Fwrdeisdrefol gan fod y gwaith yn aml iawn yn gor-gyffwrdd. Roedd yn cofio'r adeg pan oedd 4 toiled ym Morfa Bychan a bod y toriadau sylweddol sydd wedi bod ar wariant cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf wedi golygu mai dim ond 1 a chwarter toiled oedd bellach (y chwarter ydi toiled Lôn Gwydryn sydd yn agored am chwarter o'r amser). Caewyd 2 doiled ym Morfa Bychan, roedd 3 yn Ninas Dinlle ac un sydd yno bellach. Mae'r Adran Forwrol yn rhannu'r pryderon yma ac yn sicr yn rhoi pwysau ar yr Adran Fwrdeisdrefol i geisio gwella'r sefyllfa. Mae llygedyn o obaith i'r dyfodol , fel rhan o'r cynllun "levelling-up" mae Sioned Williams, Pennaeth yr adran wedi adnabod traethau fel un o flaenoriaethau'r adran Economi a Chymuned i'w dargedu felly mae'r adran Forwrol wedi ceisio adnabod lle mae angen gwelliannau. Mae toiledau Morfa Bychan yn un o'r blaenoriaethau. Gellid dyblu'r capasiti yn y toiledau presennol a dyblu maint y tanciau tanddaear ond bod angen cael gwell rhaglen o lorïau'n dod i wagio'r tanciau yma. Pan awgrymwyd gosod toiledau ychwanegol yno dros dymor yr haf atebodd y byddai'n well cael adeilad/cynllun mwy parhaol.

- **Cyng Michael Roberts - pam na ellid defnyddio'r incwm o draeth Morfa Bychan i'w ddefnyddio ar gyfer gwella'r adnoddau?**

Ymatebodd Barry Davies trwy ddweud mai Morfa Bychan yw'r unig draeth o holl draethau Gwynedd lle codir tâl i'w ddefnyddio a bod yr incwm ohono yn gorfod cael ei rannu rhwng holl draethau Gwynedd. Edrychir ar gyllid y sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn hytrach na fesul traeth unigol. Rôl yr adran Fwrdeisdrefol ydi gwneud y gwelliannau a rôl yr adran Forwrol ydi adnabod lle mae angen y gwelliannau.

Awgrymodd y Cyn Gwilym Jones y dylid rhedeg y traeth fel busnes ac y dylai'r adran Forwrol brynu i mewn gwasanaeth gan yr adran Fwrdeisdrefol ar gyfer glanhau toiledau ac ati. Atebodd Barry Davies fod rhaid defnyddio incwm Morfa Bychan i ariannu traethau Gwynedd i gyd.

Problem sbwriel ar y traeth

Dim posibil' rhoi skip yno – anodd iawn fyddai cael mynediad i'r skip a'r perygl fyddai y byddai pobl leol yn gwagio dodrefn ac ati yn y skip.

- **Cyng Alwyn Gruffydd – oes gobaith cael statws Y Faner Las yn ôl?**

Does yr un traeth yng Ngwynedd, Ynys Môn na Chonwy wedi derbyn tystysgrif y Faner Las eleni. Mae gofynion y faner Las yn sylweddol ac mae ei amser drosben erbyn hyn. Dydi'r ffaith nad oes gan draeth y Faner Las ddim yn golygu fod llai o bobl yn defnyddio'r traeth hwnnw.

Rhaid profi fod gwerth i statws y Faner Las cyn talu'r £7,000 am wneud cais amdano.

➤ **Cyng Llywelyn Rhys – Camper vans a lansio Jetskis – sut mae cryfhau'r orfodaeth?**

Mae'r adran Forwrol wedi cael haf hynod o lwyddiannus – ychydig iawn o gwynion a ddaeth i law o ystyried y niferoedd uchel sydd wedi ymweld â'r traeth dros y cyfnod. Mae'r staff Morwrol wedi gwneud yn dda iawn i ymdopi â'r sefyllfa anodd gyda chyn lleied o staff ac adnoddau. Ymddygiad anghymdeithasol pobl ydi'r broblem. Roedd Barry Davies yn gweld bai ar y Wasg yn adrodd am y camper vans yn aros dros nos ar draeth Morfa Bychan a bod hyn yn ei hun wedi hysbysebu'r ffaith nad oedd modd rheoli'r sefyllfa trwy orfodaeth ac yn annog mwy o'r camper vans i ddefnyddio'r traeth. Dywedodd ei bod yn anodd iawn i erlyn pobl am dorri'r rheol yma gan mai tir preifat ydi rhannau eang o'r traeth ac nad oes gan Gyngor Gwynedd yr hawl i roi gorfodaeth ar dir preifat. Yr unig beth a ellir ei wneud yw rhoi rhybudd i berchnogion y camper vans y cânt eu herlyn am aros dros nos ac i'w hannog i symud ymlaen. Dywedodd fod nifer llawer iawn uwch o'r camper vans wedi bod yn aros dros nos yn y gorffennol ond fod mwy o sylw wedi ei roi i'r broblem yn ddiweddar. Maent yn broblem gynyddol dros holl ardaloedd Gwynedd. Roedd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gasglu tystiolaeth ffotograffig o unrhyw lygru trwy wagio toiledau cemegol yn y twyni neu unrhyw ddrwgweithredu arall fel y gall yr adran Forwrol fynd â'r mater ymhellach er mwyn cael erlyniad. Ynglyn â Jetskis, mae'r Harbwrfeistr a'r Dirprwy wedi bod yn fwy gweithredol yr haf yma trwy gofrestru'r defnydd o Jetskis. Bydd aelod o staff y traeth yn mynychu hyfforddiant Jetski ar gyfer yr haf nesaf fel y gellir monitro'r sefyllfa yn well.

➤ **Cyng Aled Griffith – Beth am godi £50 y noson ar y camper vans i gael aros dros nos ar y traeth? Fyddai'r incwm yma ddim yn gallu ariannu toiledau a skip a.y.y.b?**

Mae angen ystyried y pris ar gyfer yr haf nesaf ond byddai cynllun o'r fath yn gallu amharu ar fusnesau'r meysydd gweryslla swyddogol sydd yn yr ardal. Bydd rhaid ystyried chwyddiant hefyd a codi'r bar ddigon uchel i geisio darbwylo perchnogion y camper vans rhag defnyddio'r traeth dros nos. Bydd rhaid codi'r ffioedd er mwyn cadw o fewn y gyllideb.

➤ **Cyng Michael Roberts – Oes rhyw bwrpas cau'r "barrier" am 8 o'r gloch?**

Oes – yn bendant mae o'n ased bwysig ac yn rhwystro pobl rhag manteisio ar y traeth gwag i wneud drygau. Byddai'n anhrefn llwyr yno heb y "barrier". Roedd Barry Davies yn diolch yn fawr i wasanaeth yr Heddlu am iddynt bresenoli eu hunain ar y traeth dros yr haf ac am gefnogi ymdrechion y gwasanaeth Morwrol i reoli ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Aethpwyd ymlaen i holi cwestiynau penodol ynglyn â'r harbwr.

➤ **Cyng Alwyn Gruffydd – pwy oedd yn gyfrifol am osod baner Jac yr Undeb ar un o bolion yr harbwr dros gyfnod galaru marwolaeth y Frenhines?**

Nid oedd neb o'r Adran Forwrol yn gyfrifol am osod y faner – unigolyn oedd yn gyfrifol ac yn gweithredu ar ei ben ei hun heb ddim cysylltiad â'r gwasanaeth Morwrol.

➤ **Cyng Michael Roberts – pwy sydd wedi rhoi caniatâd i drigolion ochr arall yr harbwr i osod arwyddion "Preifat" i rwystro mynediad i lwybr sydd wedi bod yn gyhoeddus?**

Nid oedd Barry Davies yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn gan nad yw'r tir yn gyfrifoldeb i'r adran Forwrol. Roedd am holi'r Swyddog Tramwy er mwyn canfod yr ateb.

➤ **Cyng Michael Roberts – pryd fydd y goleuadau "festoon" yn cael eu rhoi'n ôl o gwmpas yr harbwr?**

Bydd yr Harbwrfeistr yn rhoi trefniadau mewn lle i roi'r goleuadau yn ôl ac eglurodd yntau mai'r storm ddifrifol gafwyd ar ddiwedd 2021, pan godwyd tô'r Ganolfan, oedd wedi malu'r goleuadau. Roedd am ofyn i'r Harbwrfeistr gael costau goleuadau newydd ar gyfer yr harbwr.

Cyng Gwilym Jones – roedd yn dymuno diolch yn fawr iawn i'r gwasanaeth Morwrol am wneud gwaith mor effeithiol yn rheoli'r traffic ym Morfa Bychan dros gyfnod prysur yr haf.

Roedd Barry Davies yn egluro fel yr oedd lefel traeth Morfa Bychan wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd ac wedi hen orchuddio ffordd goncrit oedd yn arwain i mewn i'r tywod. Roedd y twyni

hefyd yn amddiffynfa effeithiol iawn i dir Morfa Bychan ac yn adnodd pwysig iawn. Roedd y gwasanaeth Morwrol yn ystyried gosod rhyw fath o drac ar y fynedfa yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tri swyddog am ddod i'r cyfarfod ac am roi atebion i gwestiynau'r Cynghorwyr. Roedd hefyd yn dymuno ymddeoliad hapus iawn i Barry Davies pan fydd yn ymddeol ym mis Mawrth 2023.

Gadawodd y 3 swyddog y cyfarfod a cychwynwyd ar y Cyfarfod Rheolaidd.

198.11.22 Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy adrodd y newyddion trist iddo dderbyn ymddiswyddiad yr Is-Gadeirydd, Cyng Selwyn Griffiths. Roedd am estyn ei ddiolchiadau cynnes iawn iddo am ei wasanaeth diflino fel Cynghorydd Tref am bron i ddeugain mlynedd ac fel Cadeirydd neu Is-Gadeirydd 6 gwaith yn y cyfnod hwnnw. Roedd hefyd wedi bod yn Gynghorydd Sir Gwynedd yn cynrychioli Gorllewin Porthmadog am ddeunaw mlynedd. Caiff gyfle nawr i ganolbwyntio ar ei ddyletswyddau gyda mudiadau a chymdeithasau eraill sy'n agos iawn at ei galon a bydd felly yn parhau i wasanaethu ei gymuned leol. Nid oedd wedi bod yn benderfyniad hawdd iddo ei wneud ac roedd yn dymuno pob llwyddiant i'r Cyngor Tref i'r dyfodol.

Roedd y Cadeirydd am estyn ei ddiolchiadau personol i'r Cyng Selwyn Griffiths hefyd am ei gefnogaeth, ei gyngor a'i arweiniad fel Is-Gadeirydd i'w rôl yntau fel Cadeirydd. Roedd yn parchu ei benderfyniad ac ar ran y Cyngor Tref yn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Cyfeiriodd at ddigwyddiadau i'r calendr yn y dyfodol agos – Gwasanaeth Coffa Sul y Cofio ar Fryn Coffa ar 13.11.22 a noson Goleuo Port ar 25.11.22. Roedd hefyd yn dymuno pob llwyddiant i dîm Peldroed dynion Cymru ym mhencampwriaeth Cwpan y Byd yn Qatar.

199.11.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Hydref 11 2022

Cafwyd y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

200.11.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

201.11.22 Adrodd ar drefniadau Goleuo Nadolig 25.11.22

Eglurodd y Clerc drefn y digwyddiadau am eleni fel a ganlyn :-

- mae Cyng Llinos Murphy a chriw Pwyllgor Apêl y Steddfod yn trefnu i ysgolion yr ardal ddod i ganu yn y Ganolfan tua 5.00 ar y 25.11.22.
- bydd mynediad am ddim a bydd bwcedi casglu arian ar gyfer y Steddfod ac achosion da eraill yn y Ganolfan
- 5.20 - Sion Corn yn cyrraedd y Ganolfan ac yn tywys y plant o'r Ganolfan i'r parc
- 5.30 Sion Corn yn rhoi golau coeden y parc ymlaen cyn gwneud ei ffordd i lawr at Siop Eifionydd.

Fel hyn ceir cydweithio rhwng :-

Y Ganolfan – darparu'r Neuadd fawr

Cyngor Tref - darparu'r coed a'r goleuadau a threfnu Sion Corn

Caru Port - siopa hwyr a chystadleuaeth goffa Glenda Burke

Pwyllgor Apêl yr Eisteddfod – Sion Corn yn Siop Eifionydd

Cytunwyd bod angen gweithredu yn llawer cynharach yn y flwyddyn ar gyfer Nadolig 2023.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Caru Port i ofyn iddynt gadarnhau beth yw eu rôl nhw bellach yn nhrefniadau Goleuo Port yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

202.11.22 Cyng Selwyn Griffiths – Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Ganolfan

Cytunuwyd na ddisgwylir adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Ganolfan oherwydd ymddiswyddiad Cyng Selwyn Griffiths. Gwrthodwyd cynnig gan Cyng Carol Hayes i ofyn i'r Cyng Selwyn Griffiths gyflwyno adroddiad ysgrifenedig.

203.11.22 Cyng Alwyn Gruffydd – Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Clwb Chwaraeon

Clywyd gan y Cyng Alwyn Gruffydd nad oedd cyfarfod wedi bod o Bwyllgor y Clwb Chwaraeon ond ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda swyddogion Byw'n Iach, Canolfan Glaslyn. Daeth yn amlwg yn y cyfarfod hwnnw :-

- fod gwaith gwario sylweddol ar y cae bob tywydd
- fod difrod difrifol wedi bod yn adeilad y Clwb Chwaraeon
- fod diffyg gwirfoddolwyr/ gweithwyr i gynnal y lle
- fod diffyg digwyddiadau oherwydd cyflwr y lle yn amharu ar eu gallu i greu referniw
- fod cyfundrefn wedi ei mabwysiadu yno bellach lle arwyddir cytundeb gan y sawl sy'n defnyddio'r lle fel eu bod hwy yn gyfrifol am ddigolledu'r Clwb am unrhyw ddifrod
- i gael y cae bob tywydd yn ôl i safon derbyniol mae angen buddsoddiad o £500k
- nad oes incwm yn dod i mewn oherwydd nad yw'r cyfleusterau yn addas i'w defnyddio
- fod problem ar y cae rygbi yn golygu fod Tîm Rygbi Porthmadog yn gorfod defnyddio cae Clwb Rygbi Caernarfon i chwarae gemau adref.

Dywedodd fod y sefyllfa yn un drist iawn a bod problemau dybryd mewn ceisio cynnal adeilad a safle o'r fath. Cynhelir cyfarfod Bwyllgor y Clwb Chwaraeon ar 9.11.22 a gobeithia adrodd yn ôl o'r cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr.

204.11.22 Cyng Carol Hayes :- Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn adnewyddu mainc goffa Miss Ann Bullen B.Sc (Hons), Porthmadog School 1924 > 1954.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio a'r Clerc i holi am 3 amcanbris.

205.11.22 Cyng Carol Hayes :- Cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cysylltu gyda "Chwarae Teg" i ofyn am fanylion am "Ymgyrch Placiau Porffor" gyda'r nod o osod plac yn y dref i goffau Mair Eifion (1846 - 1882), barddones o Borthmadog.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

206.11.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Rhagfyr 13 2022 = Rhagfyr 3 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

Ethol aelodau i lenwi swyddi Cyng Selwyn Griffiths :-

- Is-Gadeirydd
- Cynrychiolydd ar bwyllgor y Ganolfan
- Cynrychiolydd ar bwyllgor y Ganolfan Gynghori (Caernarfon)
- Cynrychiolydd ar bwyllgor Caru Port

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – Cynnig ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi beth all y cyhoedd ddisgwyl fel gwasanaeth clirio dail , mes a sbwriel cyffredinol oddiar y strydoedd.
- **Cyng Alwyn Gruffydd** :- Cynnig ysgrifennu ar Mark Drakeford i fynegi cais iddo fabwysiadu Cymru fel unig enw Cymru.

207.11.22 GOHEBIAETH : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- y Clerc i gyfeirio'r llythyrau at Steffan Jones ac Iwan ap Trefor ers 23.12.21 a 19.7.22 i sylw Dafydd Gibbard er mwyn derbyn ymateb iddynt yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

GOHEBIAETH:

208.11.22 ALED THOMAS, Mynediad ambiwlans i Gae Bodawen (Cyllid/Eiddo 4.10.22)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

209.11.22 CRICCIETH CLEANING, Cadarnhau cytundeb glanhau llochesi bws (Cyllid/Eiddo 4.10.22)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

210.11.22 LLYR B. JONES C.G., Gwahoddiad i ddigwyddiad Ardal Ni 2035

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

**211.11.22 UN LLAIS CYMRU, Adroddiad Blynyddol Drafft - Cydnabyddiaeth ariannol 2023-24
Copi electronig yn unig o'r Adroddiad - 24 tudalen**

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

212.11.22 KEITH ROBERTS, Llythyr o ymddiswyddiad fel Cyngorydd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

213.11.22 LLYWODRAETH CYMRU, Llythyr am Ymgynghoriad ar foderneiddio proses gweinyddu etholiadau

LLYWODRAETH CYMRU, Copi o'r Ymgynghoriad (90 tudalen - copi electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

214.11.22 CONNOR WESTWOOD, Ymholiad / cais i fod yn Gyngorydd Tref

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'i gyfethol i fod yn Gyngorydd yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio. Y Clerc i'w hysbysu o'r canlyniad ac i drefnu cyfarfod anwytho iddo.

215.11.22 CYNGOR CYMUNED DOLBENMAEN, Hwb Eifionydd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i gysylltu'n ôl gan fynegi siomedigrwydd na chynhwyswyd neb o'r Cyngorau Cymuned a Thref ar y panel cleifion ac i rannu'r ohebiaeth fu rhwng y Cyngor Tref a Sioned Thomas , Hwb Eifionydd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

216.11.22 PRIF GOMISIYNYDD Y GWASANAETHAU AMBIWLANS, Llythyr am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth

Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth ambiwlans

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu'n ôl i Stephen Harry i ategu'r brotest yn erbyn symud y gwasanaeth Ambiwllans Awyr i'r Trallwng yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

217.11.22 MABON AP GWYNFOR, Deintyddion

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

218.11.22 SUE IRLAM, Datganiad newydd Ambiwllans Awyr Cymru

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

219.11.22 COMISIWN FFINIAU, Cyhoeddi Cynigion Diwygiedig

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r aelodau i ymateb yn unigol os dymunant.

220.11.22 WIL KINGSHOTT, Trefniadau Sul y Cofio

WIL KINGSHOTT, Map Sul y Cofio

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gofyn os fyddai posib' cael fersiwn Gymraeg "Nad anghofiwn" yn ogystal â "Lest we forget" wedi ei gerfio ar y groes bren. Mae'r Clerc wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

221.11.22 CYNG ALWYN GRUFFYDD, Datganiad i'r Wylan/ Y Ffynnon

Diolchwyd i'r Cyng Alwyn Gruffydd am lunio'r erthygl. Mae'r Clerc wedi ei yrru ymlaen i'w gyhoeddi yn rhifyn mis Rhagfyr o'r Wylan a'r Ffynnon.

222.11.22 MATERION ARIANNOL : Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Medi / Hydref	£	9.77
------	-------------------------	---	------

Biliau i'w talu :-

- AMCANBRIS GLASFRYN – 4 COEDEN NADOLIG £955.80

Penderfynwyd peidio â phrynu batri newydd i'r Diffibriliwr sbâr gan fod digonedd o ddiffibrilwyr o gwmpas y dref. Nodwyd fod rhestr gyflawn ohonynt yn yr hysbysfwrdd, ar wefan y Cyngor Tref ac wedi cael ei gyhoeddi yn Yr Wylan yn ddiweddar.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio:-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Hydref 2022	£	51.71
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Hydref 2022	£	867.49
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Hydref 2022	£	216.88
4	ASHLEY HUGHES	Dyddiadur desg 2023 a phapur llungopio	£	23.98
5	R.J.ELECTRICS	4 x goleuadau Nadolig (Caru Port)	£	1,302.00
6	D. WILLIAMS	Gosod 2 fwrdd gwybodaeth adar Cob Crwn	£	960.00
7	Y GANOLFAN	7 sesiwn Clwb Ieuenctid 25/10 hyd at 20/12/22	£	350.00
8	Y GANOLFAN	Cyfarfod Pwyllgor Llawn Hydref 13	£	40.00
9	JOHN EVANS	Gwaith hebogwr Haf 2022	£	400.00
10	UN LLAIS CYMRU	Hyfforddiant Cyng Keith Roberts 2.8.22	£	22.50
11	YR WYLAN	Hysbyseb Cyfethol mis Hydref	£	16.00
12	CRICCIETH CLEANING	Glanhau llochesi bws	£	201.60
13	GARDENCRAFT	Llenwi tybiau blodau Porthmadog	£	120.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

223.11.22 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais C22/0790/44/DT (wedi ebostio 17.10.22 – angen sylw unigol)

Lleoliad : Madog Hotel Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB

Bwriad : Creu balconi ar gefn yr eiddo

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais .: C22/0958/44/DT (wedi ebostio i'ch sylw 23.10.22)

Lleoliad : Dolwar Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY

Bwriad : Modurdy domestig

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(c) Rhif Cais .: C22/0967/44/LL (wedi ebostio i'ch sylw 25.10.22)

Lleoliad : Aldi, Aldi Ffordd Penamser, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NY

Bwriad : Offer rheweiddiad newydd

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(ch) Rhif Cais .: C22/0766/44/CR (wedi ebostio 3.11.22)

Lleoliad : 3 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB

Bwriad : Addasiadau mewnol ynghyd a gosod canllaw gwydr ar y llawr cyntaf cefn, a amnewid 2 ffenestr am ddrysau dwbl a creu agoriad newydd

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r Cyng Selwyn Griffiths ar ran y Cyngor Tref i ddiolch iddo am ei wasanaeth di-dor ers bron i ddeugain mlynedd fel Cyngorydd Tref Porthmadog yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Dr Melfyn Edwards yn elio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.25

Marian Roberts
(Clerc)

Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Ffôn / Tel : 01766 513709

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com